

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Ariannu Addysg Uwch Funding Higher Education

Q11 Nick Bourne: Will the First Minister update us on his Government's plans for funding higher education? OAQ0678(FM)

C11 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar gynlluniau ei Lywodraeth ar gyfer ariannu addysg uwch? OAQ0678(FM)

The First Minister: I dealt with the issue of funding Welsh higher education institutions in answer to question 2 this afternoon. Plans for funding students in higher education were debated and agreed last week. These provided a substantial package of support for Welsh students, which exceeds that available to students elsewhere.

Y Prif Weinidog: Ymdriniais â mater ariannu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wrth ateb cwestiwn 2 y prynhawn yma. Trafodwyd a chytunwyd cynlluniau ar gyfer ariannu myfyrwyr mewn addysg uwch yr wythnos diwethaf. Rhoddai'r rhain gryn gefnogaeth i fyfyrwyr Cymru, cefnogaeth sydd yn rhagori ar yr hyn sydd ar gael i fyfyrwyr mewn manau eraill.

Gwasanaethau'r GIG NHS Services

Q12 David Melding: Does the Welsh Assembly Government intend to consider the use of private treatment centres in the delivery of some NHS services? OAQ0681(FM)

C12 David Melding: A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ystyried defnyddio canolfannau triniaeth preifat i ddarparu rhai o wasanaethau'r GIG? OAQ0681(FM)

The First Minister: Our approach allows individual trusts and commissioners to apply their own judgment on a pragmatic basis in deciding what providers in and out of Wales and in and out of the private, charitable or NHS sector use in obtaining services to meet the needs of their local population.

Y Prif Weinidog: Mae ein hagwedd ni yn gadael i gomisiynwyr ac ymddiriedolaethau unigol arfer eu barn eu hunain yn bragmataidd wrth benderfynu pa ddarparwyr, oddi mewn ac oddi allan i Gymru ac oddi mewn ac oddi allan i'r sectorau preifat, elusennol neu'r GIG, a ddefnyddir i sicrhau gwasanaeth sy'n cwrdd ag anghenion eu poblogaeth leol.

Treftadaeth Ddiwylliannol Cultural Heritage

Q13 Owen John Thomas: Will the First Minister make a statement on how the Welsh

C13 Owen John Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y modd y mae

Assembly Government is promoting the celebration of our cultural heritage?
OAQ0671(FM)

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo dathlu ein treftadaeth ddiwylliannol?
OAQ0671(FM)

The First Minister: Wales has a unique cultural heritage, which has received many millions of pounds from us for worthy projects to enable the people of Wales to enjoy greater access to it and to have more opportunities to learn about it.

Y Prif Weinidog: Mae gan Gymru dreftadaeth ddiwylliannol unigryw sydd wedi derbyn cryn filiynau o bunnoedd gennym ar gyfer prosiectau teilwng sydd yn hyrwyddo mynediad pobl Cymru ati ac yn rhoi cyfle iddynt ddysgu amdani.

Menter Drawsffiniol gyda Sefydliadau Ieuentid Joint Cross Border Initiative with Youth Organisations

Q14 Gwenda Thomas: Will the First Minister make a statement on the work of Urdd Gobaith Cymru and the project launched by it aimed at establishing a joint cross-border initiative with youth organisations in Ireland and Wales?
OAQ0668(FM)

C14 Gwenda Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar waith Urdd Gobaith Cymru a'r prosiect a lansiwyd ganddo gyda'r nod o sefydlu menter drawsffiniol gyda sefydliadau ieuentid yn Iwerddon a Chymru? OAQ0668(FM)

The First Minister: The Urdd and Ógras in Ireland have received a £295,000 European grant towards a joint project for cultural co-operation between youth agencies in Ireland and Wales. It will be launched during this year's National Eisteddfod of Wales in Eryri and is an example of the excellent work carried out by the Urdd.

Y Prif Weinidog: Mae'r Urdd a'r Ógras yn Iwerddon wedi derbyn grant o £295,000 o Ewrop tuag at brosiect ar y cyd ar gyfer cydweithio diwylliannol rhwng mudiadau ieuentid yn Iwerddon a Chymru. Bydd yn cael ei lawnsio yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Eryri eleni ac mae'n enghraifft o'r gwaith rhagorol a wneir gan yr Urdd.

Uwchgynhadledd yr G8 The G8 Summit

Q15 Jeff Cuthbert: What discussions has the First Minister had with the UK Government about the Assembly's input into the G8 summit? OAQ0682(FM)

C15 Jeff Cuthbert: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyfraniad y Cynulliad i uwchgynhadledd yr G8? OAQ0682(FM)

The First Minister: Although I have not had a specific meeting about the G8 summit, I have discussed with UK Government Ministers matters relating to economic development, trade, sustainability and public finances of relevance to the G8 summit. I endorse the UK Government's leadership on those summit issues.

Y Prif Weinidog: Er nad wyf wedi cael cyfarfod penodol ynghylch uwchgynhadledd yr G8, yr wyf wedi trafod â Gweinidogion Llywodraeth y DU faterion sy'n berthnasol iddi, sef datblygu economaidd, masnach, cynaliadwyedd a chyllid cyhoeddus. Yr wyf yn cefnogi arweiniad Llywodraeth y DU ar y materion uwchgynadledol hynny.